# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Kelly Roberts | **Adran Etholiadol:** | Gorseinon |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | dd/b |
|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd misol rheolaidd yng Ngorseinon yn y Caffi Cymunedol Dros Dro ac yn y Siop Dan yr Unto yng Nghanolfan Gymunedol Tŷ Newydd. Yn ogystal â hynny, rwyf wedi gwrando ar eich pryderon a'ch materion a wedi gweithredu'n dilyn y rhain drwy wneud y canlynol:

Gosod biniau baw cŵn newydd ar y llwybr beicio, Heol Alexandra a Stryd Einon.
Gosod biniau gwastraff newydd ar Heol y Parc a Heol Alexandra.
Gosod blychau llwch newydd yn safle bws Argyll ac ar y Stryd Fawr.
Trefnu nifer o ddigwyddiadau plannu cymunedol o gwmpas Gorseinon.
Trefnu nifer o ddigwyddiadau casglu sbwriel o gwmpas Gorseinon, gan gasglu dros 100 o fagiau llawn sbwriel.
Gweithio gyda phreswylwyr yng Ngorseinon i'w helpu i glirio nifer o lonydd cefn, yn enwedig Stryd Leim, Heol Pontarddulais, Heol Cecil a Heol Brighton.
Trefnu gwaredu sbwriel a adawyd yn anghyfreithlon yn nifer o ardaloedd lle digwydd hyn yn gyson.
Gosod rheiliau newydd ar Heol Pontarddulais i sicrhau diogelwch plant sy'n gadael Parc Melin Mynach.
Cyflwynwyd cais am gyllid ar gyfer Llwybrau Mwy Diogel i'r Ysgol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er nad oedd y cais hwn yn llwyddiannus, rwyf wedi parhau i ymgyrchu dros groesfan diogelwch ar Heol Pontarddulais a Heol y Mynydd.
Gofyn i'r llinellau melyn gael eu hail-baentio ar Rodfa Argyll.
Cysylltu â'r heddlu lleol a swyddogion priffyrdd ynglŷn â nifer o broblemau parcio/goryrru ledled Gorseinon.
Rhoi cyngor ac arweiniad i nifer o unigolion parthed materion personol. Gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru i geisio datrys materion am ymddygiad gwrthgymdeithasol o gwmpas Gorseinon.
Gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Dai Leol i drafod pryderon am dai a helpu nifer o breswylwyr gyda materion a oedd yn gysylltiedig â thai.
Rhoi arian i sefydliadau a grwpiau yng Ngorseinon, gan gynnwys Cymdeithas Randiroedd Stryd Einon, Tîm Gymnasteg Stryd y Gorllewin, y Cynllun Ceir Cymunedol, Y Lleng Brydeinig Frenhinol a Digwyddiad Pride y Gwanwyn, a gynhaliwyd yn Abertawe.

## Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Cynghorydd Tref Gorseinon a Thref Llwchwr
Llywodraethwr AALl ar gyfer Ysgol Gynradd Gorseinon
Rhiant-lywodraethwr ar gyfer Ysgol Gyfun Penyrheol
Llywodraethwr AALl ar gyfer Bwrdd Corfforaeth Coleg Gŵyr Abertawe
Ysgrifennydd Bwyd gyda Ffrindiau
Gwirfoddolwr ym Manc Bwyd Gorseinon

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Gan ddefnyddio fy nghyllideb gymunedol, grant gan Gyngor Tref Gorseinon ac arian a godwyd gan aelodau'r gymuned leol, gwellais i ardal chwarae Stryd y Capel yng Ngorseinon.
Gweithiais yn agos gyda Chyngor Tref Gorseinon i ddarparu'r llwybr pwmpio ym Mharc Melin Mynach
Rwyf wedi ymgyrchu dros system synhwyro cerbydau newydd, sydd wedi'i gosod ger goleuadau Cockelshell a West End, ac mae hi wedi gwella tagfeydd a chiwiau 20%.
Trefnais i, ar y cyd â phobl eraill, ddiwrnodau hwyl i'r teulu yng Ngorseinon ym mis Awst 2017/18 a chodais i dros £1000 ar gyfer mentrau elusennol a lleol.
Rwy'n trefnu, ar y cyd â phobl eraill, Fwyd gyda Ffrindiau, sef pryd o fwyd cymunedol am ddim a gynhelir yng Ngorseinon.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Sefydlais i fenter casglu sbwriel wythnosol gyda Choleg Gŵyr, a dderbyniodd wobr gan Faer Cyngor Tref Llwchwr wedi hyn ar gyfer ei gwaith cymunedol. Rwy'n parhau i wirfoddoli ym Manc Bwyd Gorseinon a sefydlais i'r fenter pethau ymolchi, Siop Nadolig Dros Dro a Siop Mynd yn ôl i'r Ysgol Dros Dro. Rwy'n ymroddedig o hyd i gynrychioli pobl Gorseinon. Mae'n bleser gennyf weld y gymuned yn dod ynghyd i wirfoddoli ar gyfer y fenter Bwyd gyda Ffrindiau, rhoi teganau a phethau ymolchi i'r banc bwyd a'r siopau dros dro ac ymuno yn y caffi cymunedol. Byddaf yn parhau i weithio tuag at greu Gorseinon gwell sy'n fwy cydlynol.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Basic Salary - Cyflog Sylfaenol: £13,400

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 05/10/2018 |